



Cyfarfod

PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERMAW

Dyddiad ac Amser

10.30 y.b., DYDD MAWRTH, 22AIN HYDREF, 2019

Lleoliad

**Parlwr Mawr, Theatr y Ddraig, Canolfan Gymunedol Abermaw, Jubilee Road,
Abermaw, Gwynedd. LL42 1EF**

Pwynt Cyswllt

Lowri Haf Evans

01286 679 878

lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru

(DOSBARTHWYD 14 Hydref 2019)

AELODAETH:

Cyngor Gwynedd:

Louise Hughes
Eryl Jones-Williams
Gethin Glyn Williams (Cadeirydd)

Aelodau Cyfetholedig:

Cynghorydd Rob Triggs
Cynghorydd R A Williams
Dr John Smith
Wendy Ponsford
John Johnson

Mark James
Martin Parouty
Cynghorydd Brain Wooley
Sedd wag

Cyngor Tref Abermaw
Grwp Gwella Cyrchfannau Abermaw
Grwp Mynediad Traphont Abermaw
Clwb Hwyllo Merioneth
Cymdeithas Pysgota Abermaw a Bae
Ceredigion
Cymdeithas y Bad Achub
Grwp Defnyddwyr Harbwr Abermaw
Cyngor Cymuned Arthog
Pwyllgor Ras y Tri Copa

Sylwedyddion:

Peter Read
Dr John Jones-Morris
Gareth Thomas

Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli
Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog
Aelod Cabinet Datblygu'r Economi

RHAGLEN

1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2019 / 2020

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is gadeirydd ar gyfer 2019 / 2020

3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

5. COFNODION

5 - 8

a) Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd 26.03.19 fel rhai cywir

b) Materion yn codi

6. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR

9 - 24

a) I ystyried adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau

b) I ystyried adroddiad yr Harbwr Feistr

7. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL

Grwp Defnyddwyr Harbwr Abermaw

- Cynllun Datblygu Harbwr Abermaw
- Llaid / cronni tywod / Mesurau lliniaru
- Grisiau cyhoeddus
- Railtrack a Thraphont Abermaw

Cyngor Tref Abermaw

- Symudiad Tywod
- Morglawdd
- Carthu

Clwb Hwyllo Merioneth

- Tywod ger y Baddondy

8. DYDDIAD CYFARFOD NESAF

I nodi cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw ar
24^{ain} Mawrth 2020

PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERMAW 26.03.19

YN BRESENNOL:

Aelodau: Cyng. Gethin Glyn Williams – Cadeirydd (Cyngor Gwynedd), Cyng. Eryl Jones-Williams (Cyngor Gwynedd), Cyng. R. Triggs (Cyngor Tref Abermaw), Dr John Smith (Grŵp Mynediad Traphont Abermaw / Pwyllgor Ras y Tri Copa), Cyng. Mark James (Cymdeithas y Bad Achub), Mrs Wendy Ponsford (Aelod o Glwb Hwyllo Meirionnydd), Mr Martin Parouty (Grŵp Defnyddwyr Harbwr Abermaw) a'r Cyng. Brian Woolley (Cyngor Cymuned Arthog)

Swyddogion: Llŷr Jones (Uwch Reolwr Economi a Chymuned), Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig), Glyn Jones (Harbwr Feistr Abermaw), Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau) a Mererid Watt (Cyfieithydd)

Eraill a wahoddwyd: Sandi Rocca (Cymdeithas Cyhoeddusrwydd Abermaw)

1. YMDDIHEURIADAU:

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Cyng. Louise Hughes (Cyngor Gwynedd), Y Cynghorydd Ioan Ceredig Thomas (Aelod Cabinet - Economi) ac Arthur Francis Jones (Uwch Swyddog Harbyrau)

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 23 Hydref, 2019 yn ddarostyngedig i gywiro nodyn (d) clirio tywod tud 5 o 'symud tywod' i 'symud twyni tywod' a hefyd cywiro nodyn 5 diogelwch harbwr tud 6 o 'cewyll ac offer pysgota yn Aberdyfi' i 'cewyll ac offer pysgota yn Abermaw'.

Cynnig ac eiliwyd bod 'materion yn codi o'r cofnodion' yn eitem benodol ar y rhaglen.

Materion yn codi o'r cofnodion:

(a) **Digwyddiadau**

Dyddiadau Motorcross wedi ei cadarnhau

(b) **Ffonau Gwasanaeth Brys Y Friog**

Yn dilyn adolygiad ar draws yr arfordir, amlygwyd bod y defnydd o'r ffonau brys yn isel. Amlygodd cynrychiolydd Cyngor Cymuned Arthog y byddai'r Cyngor Cymuned yn dymuno i'r ffonau gael eu cynnal. Awgrymwyd cynnal trafodaethau gyda'r Cyngor Cymuned ynglŷn â'r posibilrwydd o drosglwyddo'r cyfrifoldeb am y ffonau iddynt.

(c) **Difrod i reiliau tu allan i Adeilad Dora**

Adroddwyd bod difrod pellach wedi ei wneud i'r rheiliau tu allan i Adeilad Dora ac er mai Cyngor Gwynedd sydd yn ysgwyddo'r baich am dalu am y difrod nodwyd bod y costau wedi eu hadennill yn llawn.

(ch) Ffordd y Compownd

Yn dilyn awgrym yn y cyfarfod diwethaf i osod gorchymyn traffig ar dir Ffordd y Compownd, amlygodd Uwch Reolwr Economi a Chymuned bod trefniadau gorchymynion tir yn cael eu hadolygu ar draws Gwynedd gyda'r darn yma yn rhan o gynllun ehangach. Ategodd bod bwriad dechrau proses o ymgynghori yn ystod Haf 2019. Mewn ymateb, amlygwyd y posibilrwydd o logi neu lesu'r tir yn hytrach na chreu maes parcio swyddogol. **Cynigiwyd yr angen i sefydlu rheolaeth addas ar gyfer y safle.**

4. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLI'R HARBWR**(a) Adroddiad yr Uwch Swyddog Harbwr**

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Uwch Swyddog Harbyrau yn rhoi diweddariad byr i'r Pwyllgor ar faterion yr harbwr am y cyfnod mis Hydref 2018 - Mawrth 2019.

Yn dilyn adolygiad o gyfrifoldebau'r Aelodau Cabinet ym Mawrth 2019, adroddwyd mai'r Cynghorydd Gareth Thomas oedd â chyfrifoldeb dros faes Datblygu'r Economi a Chymuned. Diolchwyd i'r Cynghorydd Ioan Thomas, cyn aelod Cabinet dros Ddatblygu'r Economi a Chymuned, am ei gefnogaeth a'i ymrwymiad i'r gwasanaeth morwrol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag aelodaeth a phresenoldeb rhai aelodau o'r Pwyllgor, amlygwyd mai cyfrifoldeb yr Aelod Cabinet yw aelodaeth y Pwyllgor ac y byddai unrhyw newid i aelodaeth neu gyfansoddiad y Pwyllgor yn cael ei benderfynu gan yr Aelod Cabinet. **Awgrymwyd gohebu gyda'r holl gymdeithasau presennol i geisio cynrychiolaeth cyn ymateb i geisiadau newydd. Mewn ymateb i aelodaeth y cylch gorchwyl lle nodi'r y gellid cael 'hyd at 4 aelod lleol o Gyngor Gwynedd', awgrymwyd rhoi gwahoddiad i'r aelod sydd yn cynrychioli Penmaen-pwl.**

Angorfeydd

Yn ymateb i gofnod mis Hydref ynglŷn â lleihad yn y nifer angorfeydd, adroddwyd bod bwriad ar y pryd i adolygu pam bod perchnogion angorfeydd wedi ymadael. Cyfaddefwyd nad oedd hyn wedi ei weithredu ond bod dymuniad i ymgysylltu i geisio barn defnyddwyr. **Gwnaed cais i'r swyddogion holi'r defnyddwyr am y sefyllfa ar hyd yr arfordir,**

Awgrymwyd bod angen ymateb i'r newid mewn ymddygiad gan ystyried marchnata angorfeydd ar gyfer beiciau dŵr (jet-skis). Amlygwyd y byddai defnyddwyr, yn debygol o ddefnyddio angoriad sefydlog petai un ar gael, ond yn y cyfamser yn angori dros dro gyda chychod eraill. Gyda digwyddiadau sydd yn cael eu trefnu gyda mewnbwn y Swyddfa Harbwr e.e., The Blackrock Blast, nodwyd bod modd hwyluso'r ddarpariaeth, ond nad oedd modd rheoli unigolion. Os nad yw pobl yn ymweld â'r swyddfa, anodd iawn yw rheoli sefyllfa. **I gyfarch hyn, awgrymwyd yr angen i ystyried dulliau o reoli hyn yn well a darparu cyfleuster penodol ar gyfer beiciau dŵr. Anogwyd aelodau i drafod eu syniadau gyda'r Swyddog Harbwr.**

Archwiliad Cod Diogelwch Morol.

Adroddwyd bod archwilwyr yr Asiantaeth Morwrol a Gwylwyr y Glannau wedi cynnal archwiliad (17-19.09.19) ar drefniadau diogelwch penodol a systemau Harbyrau Bwrdeistrefol Gwynedd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth a'r Côt Diogelwch Morol. Amlygwyd bod cyfrifoldeb ar bob aelod o'r Pwyllgor i ymateb i faterion y côd ac i'r gwasanaeth dderbyn sylwadau a barn yr aelodau am addasrwydd y côd.

Yn dilyn yr adolygiad derbyniwyd adroddiad oedd yn awgrymu gwelliannau a gafodd ei gylchredeg i aelodau'r Pwyllgor. Cafwyd dilyniant i'r ymweliad cychwynnol yn ystod mis Mawrth 2019 ac fe ddisgwylir adroddiad ysgrifenedig ar gasgliadau'r ail ymweliad.

Un mater a godwyd oedd yr angen am gytundeb i reoli'r glanfeydd ar gyfer yr ysgraff. Nodwyd yr angen i lunio cynllun drafft erbyn Hydref 2019 gyda bwriad o gael cytundeb terfynol yn ei le erbyn Hydref 2020 yn dilyn cyfnod o ymgynghori.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â'r goblygiadau o beidio mabwysiadu cynllun yn unol ag argymhellion yr Asiantaeth Forwrol, nodwyd bydd bai ar Cyngor Gwynedd am beidio cymryd sylw.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol:

- angen adolygu ac ymgysylltu gyda deilydd y trwyddedau
- angen asesu risg pont y rheilffordd – hyn yn cyfyngu defnydd y ysgraff
- bod llwybr / taith ddelfrydol yr ysgraff yn cael ei gyfyngu i gyfeiriad y Dwyrain
- bod cytundeb drafft wedi ei lunio yn 2017 gyda thrafodaeth am lwybr / taith yr ysgraff – cynnig ail edrych ar y drafft yma
- cynnig bod trafodaethau yn cael eu cynnal gyda gweithredwyr yr ysgraff

Mewn ymateb i sylw am yr angen i garthu'r Harbwr, mynegodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod carthu yn broses gymhleth a chostus iawn ac i'r dyfodol, ni ragwelir y byddai gwaith carthu yn cael ei wneud yn Abermaw. Ategodd bod yr Harbwr yn un naturiol gyda nifer o gyfyngiadau gwarchodaeth natur a gyda hinsawdd y byd yn newid, mae deinameg yr Harbwr yn newid a'r amgylchedd o'i gwmpas.

Mewn ymateb i'r sylwadau, pwysleisiwyd yr angen i'r Cyngor warchod yr Harbwr yn Abermaw gan ei fod yn adnodd gwerthfawr i ddenu twristiaid i'r ardal ac o fudd economaidd i'r Sir. **Cynigiwyd yr angen i wahodd yr Aelod Cynulliad Dafydd Elis Thomas, Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth (etholaeth Dwyfor a Meirionnydd) i'r harbwr i drafod goblygiadau diffyg buddsoddi yn yr harbwr.** Mewn ymateb, nododd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned yr angen i ystyried ymarferoldeb cynllun carthio Abermaw. Ategydd y byddai angen rhagbaratoi drwy gwblhau asesiadau amgylcheddol / technegol fyddai yn ddrud iawn. Os daw cyfleodd bydd rhaid ystyried pecyn ehangach ac awgrymwyd yr angen i drefnu gwaith sgopio.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol:

- bod cronriad o dywod o fewn y sianeli – cadw'r sianeli yn agored yw'r prif flaenoriaeth
- nad yw carthio lleol (localised dredging) yn ddrud ar raddfa fechan
- rhaid cynnal a chadw'r Harbwr
- rhaid ceisio lleihau problemau rhwng y sianeli a wal yr Harbwr

Awgrymwyd i Mr Matrin Parouty gyflwyno ei sylwadau am waith sgopio i'r Uwch Reolwr ac i'r Cynghorydd Chris Triggs gyflwyno ei sylwadau ynglŷn ag anghenion penodol ar gyfer yr Harbwr.

Cyfeiriwyd at ddigwyddiad galw heibio, a gafodd ei drefnu gan Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC) i rannu gwybodaeth i'r cyhoedd am y Cynllun Lliniaru Llifogydd yn Abermaw (25.3.19). Amlygwyd mai trafod opsiynau cychwynnol oedd y bwriad fyddai'n cael i ariannu gan Lywodraeth Cymru.

Tynnwyd sylw at y materion canlynol,

- Bod y gwaith o osod ffens castan wedi ei ddyrchafu fel blaenoriaeth gyda'r safle wedi ei baratoi ar gyfer dechrau'r gwaith 1.4.19

- Bod dwy swydd harbwr feistr cynorthwyol yn cael eu creu, un i'w leoli yn harbwr Porthmadog a'r llall yn harbwr Aberdyfi, gyda chyfrifoldeb i weithio ar draws yr holl harbyrau. Cefnogaeth dymhorol fydd ar gael i Abermaw eleni, ond y sefyllfa i'w adolygu i'r dyfodol.
- Dosbarthwyd taflen gyllideb Harbwr Abermaw ac adroddwyd y rhagwelir gorwariant o £22k erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

(b) Adroddiad yr Harbwr Feistr

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Harbwr feistr yn manylu ar faterion mordwyo, gweithredol, cynnal a chadw. Tynnwyd sylw at y materion canlynol

- Yn dilyn archwiliad manwl gan weithwyr Network Rail a chontractwyr cysylltiedig o draphont Abermaw adroddwyd bod angen gwneud gwaith cynnal a chadw angenrheidiol dros y tair blynedd nesaf. Ategwyd nad oedd amserlen ar gyfer y gwaith wedi ei gyhoeddi. Nododd yr Harbwr feistr bod perthynas dda gyda chwmni Network Rail. **Cynigiwyd yr angen i sicrhau bod cyfathrebu clir yn parhau rhwng Network Rail a'r Harbwr feistr fel bod diweddariadau a materion dydd i ddydd yn cael eu trafod yn amserol.**
- Bod yr arwyddion diogelwch sydd yn cael eu harddangos mewn mannau strategol o gwmpas yr Harbwr yn welliant
- Dychweliadau tystysgrifau angori - trefniadau gweinyddol wedi eu tynhau. Hyn i'w groesawu ac yn welliant sylweddol

Materion i'w hystyried ar gais Aelodau'r Pwyllgor

- Hen risiau'r ysgraff / grisiau cyhoeddus - gwaith adfer angen ei wneud
- Llwyfan heb ei atgyweirio eleni, angen edrych ar gynlluniau ymarferol - ystyried llwyfan fetel ac nid concriid
- Byrddau gwybodaeth cyhoeddus wedi ei symud o draeth Friog. Er nad yn disgyn o dan gyfrifoldebau'r Harbwr, adroddwyd bod y sefyllfa yn cael ei adolygu gan Swyddog Traethau. Nodwyd na fyddai'r byrddau yn cael eu hailosod erbyn y Pasg. Mewn ymateb, dadleuwyd yr angen am fyrdau gwybodaeth/ rhybuddion i'r cyhoedd ac awgrymwyd mai Ffordd y Traeth fuasai'r safle gorau.
- Parcio yn yr Harbwr – cais i ystyried llinellau dwbl o'r swyddfa hyd at y loceri.
- Yr angen i glirio'r compownd. Nid cyfrifoldeb y Cyngor yw'r ardal ac felly amlygwyd pryder gan Cyngor Gwynedd o'r awgrym i osod sgip ar y safle. Awgrymwyd i ddefnyddwyr y compownd dalu am gael bin gwastraff cwmni masnachol. **Cynigiwyd i'r Uwch Swyddog Harbyrau a'r Harbwr feistr i wneud ymholiadau pellach.**
- Pontŵn yr Harbwr - amlygodd bod cyfarfod wedi ei gynnal i geisio perchnogaeth a gweithrediad ar y cyd o reolaeth y pontŵn. Amlygwyd bod peiriannydd wedi gwneud arolwg o strwythur y pontŵn a bod angen gwariant sylweddol i'w gael i'r safon briodol. Ategwyd bod gwaith codi arian yn cael ei drefnu i dalu am y gwaith cynnal a chadw sylfaenol fel bod y pontŵn yn barod ar gyfer dechrau'r tymor.

5. DYDDIAD CYFARFOD NESAF

Nodwyd y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 22ain Mawrth, 2019.

Atgoffwyd yr Aelodau y gellid cyfeirio neu adrodd ar unrhyw faterion yn uniongyrchol i'r Harbwr feistr gydag anogaeth i unrhyw broblem gael ei gyfeirio drwy e-bost.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30am a daeth i ben am 12:10pm

Eitem 6

CYFARFOD	Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw
DYDDIAD	22ain Hydref 2019
TEITL	Diweddariad ar Faterion Rheoli'r Harbwr
AWDUR	Uwch Swyddog Harbyrau

1. Cyflwyniad.

- 1.1 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r Harbwr a derbyn sylwadau'r Aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Abermaw.
- 1.2 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad bras i'r Pwyllgor ar faterion yr harbwr ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mawrth 2019 a mis Hydref 2019, er mwyn derbyn adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr Harbwr.

2. Angorfeydd Abermaw a Chofrestru Cychod

- 2.1 Yn 2019/20 roedd ffigyrau angorfeydd yr Harbwr fel a ganlyn:-
- 2.2 Bu 70 o gychod ar angorfeydd blynyddol yn 2019. Mae hyn yn cymharu â 69 yn 2018 a 86 yn 2017. Mae'n amlwg bod y ffigwr hwn wedi parhau'n gymharol gyson dros y flwyddyn ddiwethaf.
- 2.3 Yn gyffredinol, wrth gymharu holl Harbyrau Cyngor Gwynedd, cafwyd gostyngiad yn nifer y cwsmeriaid ym mhob un o'r harbyrau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- 2.4 Cofrestrwyd 887 o Gychod Pŵer yng Ngwynedd yn 2019. Cofrestrwyd 66 o gychod yn Harbwr Abermaw o gymharu â 75 yn 2018.
- 2.5 Roedd 844 o gychod dŵr Personol wedi'u cofrestru yng Ngwynedd yn 2019.
- 2.6 Cofrestrwyd 79 o gychod dŵr personol yn Harbwr Abermaw o'i gymharu â 74 y flwyddyn flaenorol.
- 2.7 Atodir copïau o'r holl ddata sy'n ymwneud â deiliadaeth a chofrestru.

3. Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd

- 3.1.1 Mae Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn amlinellu'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd. Ei nod yw gwella diogelwch i bawb sy'n defnyddio neu'n gweithio yn amgylchedd y porthladdoedd morol. Mae'n berthnasol i bob Awdurdod Harbwr Statudol.

Mae'r Cod yn nodweddu arfer dda a gydnabyddir gan amrediad eang o fudd-ddeiliaid yn y diwydiant ac mae Cyngor Gwynedd yn deall y gall peidio â chadw at arfer dda fod yn arwydd o awdurdod harbwr sy'n torri dyletswyddau cyfreithiol penodol. Mae'n angenrheidiol i'r Gwasanaeth dderbyn sylwadau a barn Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar ba mor addas yw'r Cod Diogelwch Morol ac i dderbyn sylwadau'n rheolaidd ar ei gynnwys, er mwyn iddo gael ei adolygu i fod yn berthnasol i weithgareddau'r harbwr, cymorthyddion mordwyo, addasrwydd is-ddeddfau, materion diogelwch a gwaith dydd-i-ddydd cyffredinol Harbwr Abermaw.

- 3.1.2 Rhwng 19 a 21 Medi 2017, cynhaliwyd archwiliad manwl gan Y Capten Forkanul Quader a'r Capten David Turner fel archwilwyr o'r Asiantaeth Forwrol a Gwylwyr y Glannau ar y trefniadau diogelwch

presennol a systemau Harbyrau Bwrdeistrefol Gwynedd, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cod Diogelwch Morol. Yn ystod yr archwiliad, hysbyswyd y Gwasanaeth am bethau ychwanegol y gellid eu gwneud i'r systemau presennol yn ei system rheoli diogelwch i gynorthwyo gyda chydymffurfio â darpariaethau'r Cod.

- 3.1.3 Fel dilyniant i'r adolygiad cychwynnol, yn ystod y cyfnod rhwng 4 a 6 Mawrth 2019, derbyniodd y Gwasanaeth ymweliad pellach gan Y Capten Forkanul Quader i weld sut oedd yr ychwanegiadau a awgrymwyd wedi'u gweithredu. Yn ystod ei archwiliad fe ymwelodd hefyd gyda Harbwr Abermaw. Wrth archwilio, hysbysodd y Capten Quader ei fod yn fodlon bod y Gwasanaeth yn cydymffurfio â darpariaethau'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd. Roedd aelodau o Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw eisoes wedi derbyn gwahoddiad i fynychu cyfarfod o Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog, ble cafwyd cyflwyniad gan y Capten Quader ac roedd cyfle i bawb gael siarad gydag ef.
- 3.1.4 Er bod y Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd ar gyfer yr Harbyrau yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan y Gwasanaeth, atgoffir Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol o'u dyletswydd i gyflwyno sylwadau ar addasrwydd y Cod Diogelwch a derbyn sylwadau ar drefniadau gwaith yr harbyrau, er mwyn adolygu'r Cod Diogelwch i sicrhau ei fod yn berthnasol i weithgareddau'r harbwr, priodoldeb lleol.

4. Materion Staffio.

Daeth cyfnod cyflogaeth tymhorol Cynorthwydd Harbwr Abermaw i ben ar 30 Medi 2019. Er hynny, i sicrhau bod cefnogaeth i'r Harbwrfeistr a darparu cysondeb gwasanaeth ar draws y Sir, estynnwyd y cyfnod cyflogaeth tan ddiwedd Rhagfyr 2019. Yn ôl yr angen, bydd y Cynorthwydd Harbwr hefyd yn cynorthwyo â'r gwaith yn harbyrau Porthmadog ac Aberdyfi.

5. Materion Ariannol.

- 5.1 Bydd crynodeb bras o gyllidebau'r harbyrau a'r sefyllfa ariannol presennol hyd at ddiwedd mis Medi 2019 yn cael ei rannu yn y cyfarfod.
- 5.2 Yn ystod y cyfnod roedd yn rhaid ymrwymo adnoddau ariannol ar gyfer yr isod;
- Ymestyn telerau cyflogaeth staff
 - Cynnal a Chadw Cymorthyddion Mordwyo a Goleufeydd
 - Archwilio a chynnal a chadw angorfeydd y Cyngor
 - Cynnal a chadw a gweithredu cwch patrôl yr Harbwr
 - Cynnal a chadw'r tiroedd a'r celfi stryd

5.3 Ffioedd a Thaliadau 2019/20.

O ran ffioedd a thaliadau arfaethedig ar gyfer Harbwr Abermaw, ynghyd â ffioedd lansio ar gyfer Cychod Pŵer a Cychod Dŵr Personol ar gyfer 2020/21, mae'r gwasanaeth yn bwriadu addasu'r ffioedd yn unol â chyfradd chwyddiant. Ar hyn o bryd, dywed y Gwasanaeth y bydd y ffi yn codi o tua 2%.

Bydd copi drafft o'r ffioedd a'r taliadau arfaethedig yn cael ei rannu yn y cyfarfod.

6. **Adroddiad yr Harbwrfeistr** Bydd Harbwrfeistr Porthmadog yn darparu crynodeb o'r materion Mordwyo a Gweithredol a wnaed ac a brofwyd yn y cyfnod rhwng mis Mawrth 2019 a mis Hydref 2019, gan gynnwys materion cynnal a chadw. Mae copi o'i adroddiad wedi'i atodi.

CYFARFOD	Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw
DYDDIAD	22ain Hydref 2019
TEITL	Adroddiad yr Harbwrfeistr
AWDUR	A.G. Jones Harbwrfeistr Abermaw

1. Materion Mordwyo

- 1.1. Yn gyffredinol, mae cwrs y sianel fordwyo wrth ddynesu at Harbwr Abermaw wedi aros yn eithaf cyson dros yr haf ac o'r herwydd ni fu angen symud y marciau mordwyo.
- 1.2 Mae'r Gwasanaeth yn archwilio'r sianel fordwyo yn rheolaidd ar lanw isel i geisio sicrhau bod y cymhorthyddion mordwyo yn y lleoliadau mwyaf addas. Ar hyn o bryd mae'r Gwasanaeth yn monitro safleoedd Bwi Bar Rhif 1, marc llaw starbord a Marc Llaw Port Rhif 2 ym mynedfa'r sianel, oherwydd symudiad y bar tywod yn yr ardal honno.
- 1.4 Pob blwyddyn, mae Tŷ'r Drindod, yr Awdurdod Goleudai Cyffredin, yn cynnal archwiliad annibynnol ar bresenoldeb a swyddogaeth y cymhorthyddion mordwyo a gofnodwyd yn harbyrau Gwynedd. Eleni, bydd yr archwiliad yma'n digwydd yn Harbwr Abermaw rhwng 14eg - 16eg o Hydref 2019. Maes o law bydd y Gwasanaeth yn derbyn adroddiad ar yr hyn a welwyd.
- 1.4.1 Ar hyn o bryd mae tri Hysbysiad Lleol i Forwyr mewn grym yn Harbwr Abermaw.
- 1.4.2 Hysbysiad Lleol i Forwyr Rhif 3/2019. Nid yw'r Llusern wedi ei goleuo ar y cymhorthydd llaw port i Bwi Mordwyo Rhif 2 yn safle 52° 42.698' N, 004° 04.187' W. Mae golau newydd wedi ei brynu a bydd yn cael ei osod cyn gynted â bo hynny'n ymarferol.
- 1.4.3 Hysbysiad Lleol i Forwyr Rhif 5/2019. Mae'r llusern ar y Marc Arbennig yn safle 52° 43.205'N 004°05.331'W wedi diffodd. Cyfrifoldeb Gwasanaethau Arbennig Dŵr Cymru yw'r bwi ac maent yn ymwybodol o'r diffyg ac yn gwneud trefniadau i osod golau newydd.
- 1.4.4 Hysbysiad Lleol i Forwyr Rhif 6/2019. Nid yw'r cymhorthydd mordwyo starbord Bwi Rhif 3 sydd yn yr harbwr mewnol ar safle 52°43.004'N, 004°03.085'W, ddim ar ei safle priodol. Dychwelir y bwi i'w safle cyn gynted â phosib, pan fo'r contractwr angorfeydd ar gael.

2 Materion Gweithredol

- 2.1 Yn y gorffennol bu'n rhaid i'r Awdurdod Harbwr symud dau gwch o'r harbwr oherwydd eu cyflwr anniogel a'u bod yn anaddas i'r môr, a bydd y Gwasanaeth yn hwyluso symud trydydd cwch cyn bo hir sydd wedi ei angori ar draeth y Baddondy. Dymuna'r gwasanaeth atgoffa perchnogion cychod sydd â lle yn yr harbwr o'r angen i gynnal ymweliadau rheolaidd i wirio cyflwr eu cychod ac i gynnal eu diogelwch.
- 2.2 Yn unol â darpariaethau'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) ac i sicrhau arferion a gweithredoedd gwaith diogel, bydd y Gwasanaeth yn cynnal adolygiad o'r gweithrediadau pysgota a fferi yn ei harbyrau. Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar y cychod a ddefnyddir, ynghyd â'r tasgau a'r risgiau penodol sy'n gysylltiedig gyda'r gweithgareddau hynny yn amgylchedd yr harbwr.

2.3 **Angorfeydd yr Harbwr:** Dymuna'r gwasanaeth atgoffa perchnogion yr holl gychod sydd ag angorfeydd yn yr harbwr o'r angen i ddychwelyd y ffurflen berthnasol sy'n cadarnhau angorfa ynghyd â'r ffurflen archwilio angorfa i'r harbwrfeistr ar y cyfle cyntaf posib. Bydd hyn yn caniatáu i'r gwaith gweinyddol fwrw ymlaen. Mae'r Gwasanaeth yn parhau yn ymroddedig i symud unrhyw angorfa segur, unrhyw angorfa anaddas i'w diben neu unrhyw angorfa na thalwyd amdani.

2.4 **Cychod Gweini:** Hoffai'r Gwasanaeth hefyd atgoffa rhai sy'n dal angorfa o'r angen i gofrestru unrhyw gwch gweini a ddefnyddir gyda swyddfa'r harbwr. Yn ddelfrydol, dylai pob cwch gweini gael eu marcio a bod yn hawdd eu hadnabod efo'r cwch mae'n gweithredu fel cwch gweini iddo.

3 Cynnal a Chadw

3.1 Yn ogystal â chynnal y cymhorthion mordwyo, mae contractwr allanol wedi gwneud gwaith cynnal a chadw ar angorfeydd ymwelwyr yr harbwr ac mae'r harbwrfeistr wedi archwilio'r angorfeydd 'trot' sy'n eiddo i Gyngor Gwynedd.

3.2 Mae dwy ysgol harbwr newydd gyda ffenderau pren gwarchodol bellach wedi eu gosod ar wal yr harbwr er budd pobl sy'n dymuno byrddio neu adael cychod sydd wedi angori yno.

3.3 Bydd yr Harbwrfeistr yn cyflwyno'r rhaglen o waith cynnal a chadw sydd i'w wneud yn Harbwr Abermaw yn ystod y cyfnod rhwng Hydref 2018 a Chwefror 2019. Gofynnir am adborth gan aelodau'r Pwyllgor ynghylch unrhyw waith arall fydd angen ei ystyried a'i gynnwys yn y rhaglen waith.

4. Materion Eraill

4.1 **Arwyddion Diogelwch** Ar y cyd â'r RNLI, gosodwyd arwyddion diogelwch i rybuddio aelodau'r cyhoedd o'r peryglon cynhenid ar safleoedd o gwmpas ardal traeth Abermaw. Mae arwyddion diogelwch tebyg erbyn hyn wedi eu gosod mewn manau strategol o amgylch yr harbwr.

4.2 **Lloc y Pysgotwyr.** Mae'r Gwasanaeth yn dal i fwriadu cynnal arolwg o'r safleoedd yn Lloc y Pysgotwyr. Yn dilyn cais gan y Gwasanaeth, mae defnyddwyr y lloc wedi dechrau ei dacluso a symud deunyddiau gwastraff o'r safle. Ar ôl yr arolwg bydd yn gwasanaeth yn atgyfnerthu marciau'r llinellau ar y lleiniau unigol yn y lloc.

4.3 **Parcio yn yr Harbwr.** Mae'r Gwasanaeth yn dal i weithio tuag at gael manau parcio dynodedig ar Ffordd y Compownd i helpu Gweithwyr Masnachol ar y dŵr i ddal ati gyda'u gweithgareddau mewn amgylchedd harbwr prysur. Mae bolardiau traffig nawr wedi eu gosod yn eu lle yn y rhan o'r ffordd sy'n arwain at lloc y pysgotwyr i gyfyngu cerbydau heb awdurdod rhag parcio yn yr ardal. Yn anffodus, ers iddynt gael eu gosod mae dau folard wedi eu niweidio ac nid oes neb wedi derbyn cyfrifoldeb a bu'n rhaid i'r Gwasanaeth adrodd am y digwyddiadau i Heddlu Gogledd Cymru.

4.3.1 Hoffai'r Awdurdod Harbwr atgoffa'r defnyddwyr gwasanaeth am yr angen i ddefnyddio'r rhwystr ger mynedfa'r ffordd sy'n arwain at Lloc y Pysgotwyr yn effeithiol.

- 4.4 Dywed y Gwasanaeth y bydd yn parhau i geisio cymorth gan swyddogion gorfodaeth Cyngor Gwynedd pan a phryd fo angen, i hwyluso mynediad rhydd, dirwystr i'r lithrfa i ddefnyddwyr yr harbwr o ran y marciau ffordd ger adeilad yr 'SS Dora'.
- 4.5 **Pontŵn yr Harbwr** Nid yw perchnogaeth dybiedig a gweithrediad rheolaethol pontŵn yr harbwr gan Ymddiriedolaeth Cymunedol Abermaw eto wedi ei gadarnhau. Mae gwaith strwythurol wedi ei ymgymryd ar brif ran y pontŵn, a bydd gwaith yn cael ei wneud i fysedd y pontŵn cyn dechrau'r tymor y flwyddyn nesaf.
- 4.6 **Cadw cychod dros y Gaeaf.** Defnyddiodd perchnogion dau gwch y cyfleuster i storio cychod dros y gaeaf ar y maes parcio ger y Ganolfan Hamdden am y cyfnod rhwng 1 Hydref i'r 31 Mawrth y llynedd. Er yr ymateb siomedig, mae'r cyfleuster yma'n parhau yn opsiwn gyda chost os yw perchennog unrhyw gwch angen lle i storio dros y gaeaf.

5. **Digwyddiadau**

- 5.1 Cynhaliwyd y digwyddiadau a ganlyn yn Harbwr Abermaw yn 2019:-
- Ras y Tri Chopa
 - Gŵyl Chwaraeon Padlo
 - Gŵyl Farcud
 - Gŵyl Fwyd Abermaw
 - Ras Rafftio
 - Digwyddiad Motorcross
 - Digwyddiad Elusennol Badau Dŵr Personol
- Oherwydd tywydd gwael ni chynhaliwyd digwyddiad Hwrli Bwrli y Gymdeithas Nofio.
- 5.4 Hoffai'r Gwasanaeth atgoffa aelodau ei bod yn hanfodol fod Awdurdod yr Harbwr yn cael gwybod am unrhyw ddigwyddiad arfaethedig yn yr Harbwr a dylid gofyn am ganiatâd, cyn gynted ag y bo modd.

Uned Morwrol a Pharciau Gwledig / Maritime and Country Parks Unit
Cyfanswm wedi Cofrestru Badau Dwr Personol - Total number of Personal Watercraft Registrations

<i>Blwyddyn Year</i>	<i>Harbwr Aberdyfi Harbour</i>	<i>Harbwr Abermaw Harbour</i>	<i>Harbwr Porthmadog Harbour</i>	<i>Harbwr Pwllheli/ Hafan</i>	<i>Morfa Bychan</i>	<i>Traethau Gwynedd Beaches</i>	<i>Swyddfa Office</i>	<i>Cyfanswm Total</i>
2014	22 Aberdyfi 1 Tywyn	65 Abermaw 5 Caerddaniel	20	36 Total Boat Care 1 Harbwr 47 Hafan	143	88 Abersoch 5 Machroes 3 Morfa Nefyn 6 Nefyn 1 Aberdaron	250	693
2015	23 Aberdyfi 1 Tywyn	64 Abermaw a Caerddaniel	30	42 Total Boat Care 43 Hafan	157	76 Abersoch 1 Machroes 9 Morfa Nefyn 6 Nefyn 1 Aberdaron	243	696
Tud. 14 2016	27 Aberdyfi 4 Tywyn	69 Abermaw	35	49 Total Boat Care 56 Hafan	183	101 Abersoch 20 Machroes 4 Morfa Nefyn 10 Nefyn 2 Aberdaron	174	734
2017	28 Aberdyfi 6 Tywyn	68 Abermaw	45	55 Total Boat Care 65 Hafan	165	122 Abersoch 10 Machroes 12 Morfa Nefyn 10 Nefyn 1 Aberdaron	151	738
2018	50 Aberdyfi 3 Tywyn	74 Abermaw	52	73 Total Boat Care 105 Hafan	200	188 Abersoch 9 Machroes 3 Morfa Nefyn 5 Nefyn 1 Aberdaron	160	923
2019	38 Aberdyfi a Tywyn	79 Abermaw	55	57 Total Boat Care 116 Hafan	184	137 Abersoch 5 Machroes 14 Morfa Nefyn 5 Nefyn 0 Aberdaron	153	843

Uned Morwrol a Pharciau Gwledig / Maritime and Country Parks Unit
Cyfanswm wedi Cofrestru Cychod Pŵer - Total number of Powerboat Registrations

Tud. 15


<i>Blwyddyn Year</i>	<i>Harbwr Aberdyfi Harbour</i>	<i>Harbwr Abermaw Harbour</i>	<i>Harbwr Porthmadog Harbour</i>	<i>Harbwr Pwllheli Harbour</i>	<i>Morfa Bychan</i>	<i>Traethau Gwynedd Beaches</i>	<i>Swyddfa Office</i>	<i>Cyfanswm Total</i>
2014	54 Aberdyfi 8 Tywyn	64 Abermaw 11 Caerddaniel	24	118 Total Boat Care 8 Harbwr 85 Hafan	19	115 Abersoch 3 Machroes 30 Morfa Nefyn 14 Nefyn 21 Trefor 19 Aberdaron	408	1001
2015	52 Aberdyfi 3 Tywyn	71 Abermaw a Caerddaniel	30	99 Total Boat Care 5 Harbwr 104 Hafan	14	92 Abersoch 4 Machroes 23 Morfa Nefyn 13 Nefyn 16 Trefor 12 Aberdaron	449	987
2016	58 Aberdyfi 7 Tywyn	81 Abermaw	37	115 Total Boat Care 4 Harbwr 119 Hafan	31	101 Abersoch 71 Machroes 27 Morfa Nefyn 14 Nefyn 10 Aberdaron	336	1011
2017	53 Aberdyfi 9 Tywyn	66 Abermaw	37	103 Total Boat Care 3 Harbwr 117 Hafan	29	125 Abersoch 40 Machroes 48 Morfa Nefyn 19 Nefyn 11 Aberdaron 6 Trefor	289	955
2018	53 Aberdyfi 14 Tywyn	75 Abermaw	38	112 Total Boat Care 177 Hafan	34	161 Abersoch 31 Machroes 52 Morfa Nefyn 15 Nefyn 5 Aberdaron	290	1057
2019	55 Aberdyfi a Tywyn	66 Abermaw	33	97 Total Boat Care 172 Hafan	30	89 Abersoch 20 Machroes 60 Morfa Nefyn 14 Nefyn 12 Aberdaron	244	892

HARBWR ABERMAW HARBOUR


Cymhariaeth o Ystadegau Cychod Comparison of Boat Statistics

	2014	2015	2016	2017	2018	2019
Nifer o Gychod / Number of Boats	82	93	88	86	69	70
Cyfanswm Hydoedd / Total LOA	610.37	671.20	627.64	602.63	493.36	512.00
Cyfartaledd Hyd / Average Length	7.44	7.21	7.13	7.01	7.15	7.31
Cyfanswm Dyfnder / Total Draught	76.45	82.89	77.96	74.56	61.21	65.13
Cyfartaledd Dyfnder / Average Draught	0.93	0.89	0.86	0.87	0.89	0.93


Nifer o Gychod / Number of Boats




Cyfanswm Hydoedd / Total Length




Cyfartaledd Hyd / Average Length



Cyfanswm Dyfnder / Total Draught



Cyfartaledd Dyfnder / Average Draught



Uned Morwrol a Pharciau Gwledig

Ystadegau Cychod Pŵer v's Cychod Hwyllo a Rhestr Aros - Powerboats v's Sailing Boats and Waiting List

<i>Harbwr/Harbour Marina</i>	<i>Cyfanswm Nifer Angorfeydd Total number available moorings</i>	<i>Cyfanswm Cychod ar Angorfeydd Total number of boats on mooring</i>	<i>Nifer Cychod Pŵer Total number Powerboats</i>	<i>Nifer Cychod Hwyllo Total number sailing boats</i>	<i>Canran (%) Pŵer V's hwyllo Percentage Power v's Sail</i>
Harbwr Aberdyfi 14	120	75	53	22	70.7% Pwer 29.3% Hwyllo
Harbwr Aberdyfi 15	120	77	53	24	68.8% Pwer 31.2% Hwyllo
Harbwr Aberdyfi 16	120	79	55	24	69.6% Pwer 30.4% Hwyllo
Harbwr Aberdyfi 17	120	78	56	22	71.8% Pwer 28.2% Hwyllo
Harbwr Aberdyfi 18	120	74	55	19	74.3 % Pwer 25.7% Hwyllo
Harbwr Aberdyfi 19	120	68	54	14	79.4% Pwer 20.6% Hwyllo
Tud. 17 Harbwr Abermaw 14	140	82	54	28	65.9% Pwer 34.1% Hwyllo
Harbwr Abermaw 15	140	93	60	33	64.5% Pwer 35.5% Hwyllo
Harbwr Abermaw 16	140	88	59	29	67.0% Pwer 33.0% Hwyllo
Harbwr Abermaw 17	140	86	55	31	64.0% Pwer 36.0% Hwyllo
Harbwr Abermaw 18	140	69	45	24	65.2% Pwer 34.8% Hwyllo
Harbwr Abermaw 19	140	70	44	26	62.9% Pwer 37.1% Hwyllo
Harbwr Porthmadog 14	238	157	54	103	34.4% Pwer 65.6% Hwyllo
Harbwr Porthmadog 15	238	140	45	95	32.1% Pwer 67.9% Hwyllo
Harbwr Porthmadog 16	238	129	41	88	31.8% Pwer 68.2% Hwyllo

	Harbwr Porthmadog 17	238	135	42	93	31.1% Pwer 68.9% Hwyllo
	Harbwr Porthmadog 18	238	131	40	91	30.5% Pwer 69.5% Hwyllo
	Harbwr Porthmadog 19	238	130	42	88	32.3% Pwer 67.7% Hwyllo
	Harbwr Pwllheli 14	114	91	36	55	39.6% Pwer 60.4% Hwyllo
	Harbwr Pwllheli 15	114	87	46	41	52.9% Pwer 47.1% Hwyllo
	Harbwr Pwllheli 16	114	58	18	40	31.0% Pwer 69.0% Hwyllo
	Harbwr Pwllheli 17	114	60	19	41	31.7% Pwer 68.3% Hwyllo
	Harbwr Pwllheli 18	114	55	29	26	52.7% Pwer 47.3% Hwyllo
	Harbwr Pwllheli 19	114	58	26	32	44.8% Pwer 55.2% Hwyllo
Tud. 18	Hafan Pwllheli 14	409	293	139	154	47.4% Pwer 52.6% Hwyllo
	Hafan Pwllheli 15	409	292	138	154	47.3% Pwer 52.7% Hwyllo
	Hafan Pwllheli 16	409	287	137	150	47.7% Pwer 52.3% Hwyllo
	Hafan Pwllheli 17	409	306	144	162	47.1% Pwer 52.9% Hwyllo
	Hafan Pwllheli 18	409	292	150	142	51.4% Pwer 48.6% Hwyllo
	Hafan Pwllheli 19	409	299	133	166	44.5% Pwer 55.5% Hwyllo
	Doc Fictoria 14	100	100	36	64	36.0% Pwer 64.0% Hwyllo
	Doc Fictoria 15	100	98	34	64	34.7% Pwer 65.3% Hwyllo
	Doc Fictoria 16	100	92	34	58	37.0% Pwer 63.0% Hwyllo
	Doc Fictoria 17	100	92	28	64	30.4% Pwer 69.6% Hwyllo

Doc Fictoria 18	100	90	49	41	54.4% Pwer 45.6% Hwyllo
Doc Fictoria 19	100	94	29	65	30.9% Pwer 69.1% Hwyllo
Cyfanswm 14	1121	798	372	426	46.6% Pwer 53.4% Hwyllo
Cyfanswm 15	1121	787	376	411	47.8% Pwer 52.2% Hwyllo
Cyfanswm 16	1121	733	344	389	46.9% Pwer 53.1% Hwyllo
Cyfanswm 17	1121	757	344	413	45.4% Pwer 54.6% Hwyllo
Cyfanswm 18	1121	709	367	342	51.8% Pwer 48.2% Hwyllo
Cyfanswm 19	1121	719	328	391	45.6% Pwer 54.4% Hwyllo

CYMHARIAETH O YSTADEGAU CYCHOD YM MHOB HARBWR 2019

COMPARISON OF BOAT STATISTICS AT EACH HARBOUR 2019




Harbwr Harbour	Nifer o Gychod Number of Boats	Cyfanswm Hydoedd Total Overall Length	Cyfartaledd Hyd Average Length	Cyfanswm Dyfnder Total Draught	Cyfartaledd Dyfnder Average Draught
Abermaw	70	512.00	7.31	65.13	0.93
Aberdyfi	68	451.96	6.65	46.54	0.68
Porthmadog	130	1030.04	7.92	128.80	0.99
Pwllheli	58	425	7.32	47.52	0.81
Cyfansymiau holl harbrau Totals of all harbours	326	2419.00	29.20	287.99	3.41
Cyfartaleddau holl harbrau Averages of all harbours	81.50	604.75	7.30	72.00	0.85


Darlun o ystadegau cychod ym mhob harbwr.

Analysis of boat statistics at each harbour.


Nifer o Gychod / Number of Boats




Cyfanswm Hyd / Total LOA




Cyfartaledd Hyd / Average LOA



Cyfanswm Dyfnder / Total Draught




Cyfartaledd Dyfnder / Average Draught



Uned Morwrol / Maritime Unit
Ystadegau angorfeydd – Mooring statistics

<i>Harbwr Harbour</i>	<i>Nifer o Angorfeydd Available no of moorings</i>	<i>Preswlydd Occupancy</i>	<i>Preswyl yng Ngwynedd Residing in Gwynedd</i>	<i>Erail Others</i>
<i>Aberdyfi 2014</i>	120	75 (62.5%)	35 (46.7%)	40 (53.3%)
<i>Aberdyfi 2015</i>	120	77 (64.2%)	35 (45.5%)	42 (54.5%)
<i>Aberdyfi 2016</i>	120	79 (65.8%)	36 (45.6%)	43 (54.4%)
<i>Aberdyfi 2017</i>	120	78 (65.0%)	36 (46.2%)	42 (53.8%)
<i>Aberdyfi 2018</i>	120	74 (61.7%)	37 (50.0%)	37 (50.0%)
<i>Aberdyfi 2019</i>	120	68 (56.7%)	32 (47.1%)	36 (52.9%)
<i>Abermaw 2014</i>	140	82 (58.6%)	54 (65.9%)	28 (34.1%)
<i>Abermaw 2015</i>	140	93 (66.4%)	63 (67.7%)	30 (32.3%)
<i>Abermaw 2016</i>	140	88 (62.9%)	60 (68.2%)	28 (31.8%)
<i>Abermaw 2017</i>	140	86 (61.4%)	59 (68.6%)	27 (31.4%)
<i>Abermaw 2018</i>	140	69 (49.3%)	44 (63.8%)	25 (36.2%)
<i>Abermaw 2019</i>	140	70 (50.0%)	45 (64.3%)	25 (35.7%)
<i>Porthmadog 2014</i>	238	157 (66.0%)	44 (28.0%)	113 (72.0%)
<i>Porthmadog 2015</i>	238	140 (58.8%)	44 (31.4%)	96 (68.6%)
<i>Porthmadog 2016</i>	238	129 (54.2%)	47 (36.4%)	82 (63.6%)
<i>Porthmadog 2017</i>	238	135 (56.7%)	54 (40.0%)	81 (60.0%)
<i>Porthmadog 2018</i>	238	131 (55.0%)	54 (41.2%)	77 (58.8%)
<i>Porthmadog 2019</i>	238	130 (54.6%)	60 (46.2%)	70 (53.8%)
<i>Pwllheli 2014</i>	114	91 (79.8%)	47 (51.6%)	44 (48.4%)
<i>Pwllheli 2015</i>	114	87 (76.3%)	57 (65.5%)	30 (34.5%)
<i>Pwllheli 2016</i>	114	58 (50.9%)	27 (46.6%)	31 (53.4%)
<i>Pwllheli 2017</i>	81	60 (74.1%)	28 (46.7%)	32 (53.3%)
<i>Pwllheli 2018</i>	81	55 (67.9%)	27 (49.1%)	28 (50.9%)
<i>Pwllheli 2019</i>	81	58 (71.6%)	40 (69.0%)	18 (31.0%)

<i>Hafan 2014</i>	409	293 (71.6%)	51 (17.4%)	242 (82.6%)
<i>Hafan 2015</i>	409	292 (71.4%)	56 (19.2%)	236 (80.8%)
<i>Hafan 2016</i>	409	287 (70.1%)	55 (19.2%)	232 (80.8%)
<i>Hafan 2017</i>	409	306 (74.8%)	57 (18.6%)	249 (81.4%)
<i>Hafan 2018</i>	409	292 (71.4%)	56 (19.2%)	236 (80.8%)
<i>Hafan 2019</i>	409	299 (73.1%)	57 (19.1%)	242 (80.9%)
<i>Dco Fictoria 2014</i>	100	100 (100.0%)	25 (25.0%)	75 (75.0%)
<i>Doc Fictoria 2015</i>	100	100 (100.0%)	21 (21.0%)	79 (79.0%)
<i>Doc Fictoria 2016</i>	100	92 (92.0%)	19 (20.7%)	73 (79.3%)
<i>Doc Fictoria 2017</i>	100	92 (92.0%)	16 (17.4%)	76 (82.6%)
<i>Doc Fictoria 2018</i>	100	90 (90.0%)	21 (23.3%)	69 (76.7%)
<i>Doc Fictoria 2019</i>	100	94 (94.0%)	20 (21.3%)	74 (78.7%)



Fairway buoy	52° 42.732N	004° 04.905W
Num 1 bar buoy	52° 42.662N	004° 04.174W
Num 2 Bar Can	52° 42.700N	004° 04.206W
Num 4 Can	52° 42.728N	004° 03.941W
Num 6 Can	52° 42.773N	004° 03.793W
Cardinal buoy South	52° 42.822N	004° 03.729 W
Num 3 Inner Green	52° 43.004N	004° 03.085W
Visitors mooring Num 1	52° 43.012N	004° 02.921W
Visitors mooring Num 2	52° 43.017N	004° 02.870W
Visitors mooring Num 3	52° 43.109N	004° 02.766W